Ombwdsmon Ombudsman Cymru • Wales

# Swyddog Ymchwilio Graddedig dan Hyfforddiant

## Dyddiad Cau: 5 pm, 26 Ebrill 2024

# Cynnwys

Cyflwyniad

**Gwybodaeth am yr Ombwdsmon**

Gwerthoedd OGCC

**Gair am y rôl**

Disgrifiad Swydd Pwrpas

y rôl

Cyfrifoldebau

Gofynion

**Sut mae Gwneud Cais**

Gwneud cais am y rôl

Canllawiau ar sut i wneud cais

Cyflwyno eich CV

**Y Broses Recriwtio a Dethol**

**Diogelu Data**

Hysbysiad Preifatrwydd

# Cyflwyniad

Diolch am eich diddordeb yn rôl **Swyddog Ymchwilio Graddedig dan Hyfforddiant** yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Nod ein proses recriwtio yw denu ymgeiswyr o safon ac, yn anad dim, recriwtio'r unigolyn sydd fwyaf "addas" ar gyfer y swydd a'r Sefydliad.

Mae'r Pecyn Recriwtio hwn yn cynnwys gwybodaeth am Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, y broses recriwtio a sut i wneud cais am y swydd.

Ewch i'n gwefan www.ombwdsmon.cymru i gael rhagor o wybodaeth am y swyddfa.

# Gwybodaeth am yr Ombwdsmon

# Gwybodaeth am yr Ombwdsmon

Mae gan yr Ombwdsmon dair rôl benodol. Y cyntaf yw ystyried cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru; yr ail yw ystyried cwynion am gynghorwyr yn torri'r Cod Ymddygiad; y trydydd yw sbarduno gwelliant systemig mewn gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r Ombwdsmon yn Gorfforaeth Unigol ac yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y swyddfa. Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ar holl gyrff y llywodraeth ac mae'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu yn rhad ac am ddim. Mae'r Ombwdsmon wedi nodi ei huchelgeisiau yn ei Chynllun Strategol 2023 – 2026, y gellir ei weld ar ein gwefan. Ceir rhagor o wybodaeth am waith y swyddfa isod.

## Cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus

O dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, mae'r Ombwdsmon yn ystyried cwynion am gyrff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus lle mae'r cyfrifoldeb am eu darparu wedi cael ei ddatganoli i Gymru. Gall yr Ombwdsmon hefyd gychwyn ymchwiliadau ar ei liwt ei hun, lle mae o'r farn bod amheuaeth resymol o gamweinyddu systemig yn achosi anghyfiawnder personol.

## Cwynion ynghylch Cod Ymddygiad

O dan ddarpariaethau Rhan lll Deddf Llywodraeth Leol 2000, ynghyd â Gorchmynion perthnasol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan y Ddeddf honno, mae'r Ombwdsmon yn ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri Cod Ymddygiad eu hawdurdod.

## Sbarduno Gwelliant Systemig/Safonau Ymddygiad

O dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, gall yr Ombwdsmon osod safonau delio â chwynion ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, cyhoeddi data ar gwynion a chefnogi'r gwaith o ddelio â chwynion yn dda drwy ddarparu hyfforddiant.

OUR VALUES




## Gwerthoedd OGCC

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn credu bod diwylliant yn effeithio ar bob agwedd ar sut rydym yn gweithredu a sut mae gwaith yn cael ei wneud. Rydym yn ymddiried yn ymdeimlad gweithwyr o bwrpas, a'r set o werthoedd rydym yn eu dilyn wrth weithredu, i lywio ein diwylliant. Nod ein gwerthoedd yw darparu templed ar gyfer yr ymddygiadau a'r safonau a ddisgwylir wrth weithio i ni, gan amlinellu'r ffordd rydym yn gwneud pethau yma.

**C Cyflawni:**

Gwneud ein gorau glas

**C Cydberthynas:**

Parchu ein gilydd a gweithio ar y cyd er mwyn i'r sefydliad lwyddo

**M Meddwl yn gadarnhaol:**

Dangos brwdfrydedd a balchder o ran pwy ydym ni a'r hyn rydym yn ei wneud

**C Cefnogi:**

Bod yn gefn i'n gilydd a gwerthfawrogi ein hamrywiaeth

**P Perchnogaeth:**

Derbyn cyfrifoldeb am bopeth a wnawn

**P Parodrwydd:**

Agwedd gadarnhaol, hyblyg ac awyddus

# Cyflogwr Chwarae Teg

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ceisio sicrhau bod pobl sy'n defnyddio'i gwasanaeth, neu sy'n cael eu cyflogi ganddi, yn cael eu trin yn gyfartal ac nad yw'n gwahaniaethu'n anfwriadol yn erbyn aelodau unrhyw grŵp penodol mewn cymdeithas.

Rydym yn Hyderus o ran Anabledd ac felly rydym wedi ymrwymo i’r canlynol:

- bod yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb
- rhoi gwybod am swyddi gwag
- cynnig cyfweliad i bobl anabl sy’n bodloni’r Safonau Proffesiynol
- darparu addasiadau rhesymol
- cefnogi gweithwyr presennol

Rydym wedi ennill achrediad Cyflogwr Chwarae Teg ar lefel Arian dan y Cynllun Cyflogwr Chwarae Teg.

# Manteision

- Cyflog cystadleuol
- Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil
- Cynllun Oriau Hyblyg
- Aelodaeth Ratach o Gampfa
- Cynllun Arian Iechyd
- Cynlluniau Pryniant Gostyngol
- 32 diwrnod o wyliau blynyddol yn ogystal â gwyliau banc - pro rata ar gyfer gweithwyr rhan amser
- Gweithio hybrid gyda chyfleusterau rhagorol ar y safle ac offer ar gyfer gweithio gartref
- Cwnsela allanol a chymorth iechyd galwedigaethol am ddim

# Gair am y rôl

# Disgrifiad o'r Swydd

| | Teitl y Swydd |
|---|---|
| **Swydd:** | **Swyddog Ymchwilio Graddedig dan Hyfforddiant** |
| **Cyflog:** | Mynediad £27,000, Blwyddyn 2 £30,000, Blwyddyn 3 £33,000, Blwyddyn 4 £37,338 |
| | Blwyddyn 5 ymlaen - cynyddrannau blynyddol hyd at £48,474 y flwyddyn |
| **Yn atebol i'r:** | Pennaeth Cwynion Gwasanaethau Cyhoeddus |
| **Math o Gontract:** | Parhaol – 37 awr yr wythnos |
| **Gwyliau Blynyddol:** | 32 diwrnod o wyliau yn ogystal â gwyliau banc |
| **Cynllun Pensiwn:** | Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil |
| **Lleoliad:** | Gweithio Hybrid (Pen-y-bont ar Ogwr/Gartref) |
| **Gofynion y Gymraeg:** | Mae'r Gymraeg yn Hanfodol |

# Pwrpas y rôl

Bydd y Swyddog Ymchwilio Graddedig dan Hyfforddiant yn ymgymryd â rhaglen ddatblygu dros dair blynedd er mwyn datblygu’r sgiliau a’r galluoedd i gyflawni rôl y Swyddog Ymchwilio. Rôl Swyddog Ymchwilio yw darparu gwasanaeth effeithlon, cwrtais, gwybodus ac ymatebol i aelodau o’r cyhoedd sy’n cysylltu â’r Ombwdsmon yn ogystal ag asesu ac ymchwilio i gwynion a wneir i’r Ombwdsmon.

# Cyfrifoldebau
# Fel Hyfforddai Graddedig:

- Ymgymryd â rhaglen hyfforddi rota lawn, a'i chwblhau, i ddatblygu dealltwriaeth o bob un o'r swyddogaethau yn y swyddfa
- Datblygu dealltwriaeth lawn o awdurdodaeth yr Ombwdsmon a sut i'w chymhwyso ar draws y swyddfa
- I gwblhau pob blwyddyn yn llwyddiannus, yr amcanion a amlinellir ar gyfer datblygu fel rhan o'r Rhaglen i Hyfforddeion Graddedig
- Cyflawni i lefel sy'n ofynnol er mwyn dangos tystiolaeth o ddysgu a datblygu yn unol â rôl yr Hyfforddai Graddedig
- Ymgymryd â gwaith achos dan oruchwyliaeth i ddangos bod sgiliau a gwybodaeth berthnasol yn cael eu datblygu
- Ymgymryd â hyfforddiant mewnol ac allanol yn unol â gofynion y swydd

# Cyfrifoldebau
# Fel Swyddog Ymchwilio

- Asesu, penderfynu ac ymchwilio i gwynion a gyflwynir i'r Ombwdsmon yn unol â'r safonau a'r gweithdrefnau gweithredol a bennwyd gan yr Ombwdsmon ac o fewn yr awdurdod a ddirprwywyd ganddi
- Lle bo'n briodol, ceisio cael datrysiad anffurfiol a chyflym i gwynion, neu ymchwilio i gwynion o'r fath yn ôl y gofyn
- Negodi a sicrhau setliadau lleol gyda chanlyniadau priodol
- Dod i gasgliadau, cynnig canfyddiadau ac argymhellion i'r Ombwdsmon yn ystod ymchwiliadau llawn wrth weithredu o fewn awdurdod dirprwyedig yr Ombwdsmon yn brydlon
- Drafftio a chyflwyno llythyrau penderfyniad, llythyrau datrys ac adroddiadau yn unol â gweithdrefnau gweithredol yr Ombwdsmon.
- Sicrhau, fel y bo'n briodol, fod y gwaith o gydymffurfio â'r argymhellion a gyflwynir i awdurdodau a restrir yn cael ei fonitro a'i werthuso
- Darparu cyngor ac arweiniad cyffredinol i aelodau'r cyhoedd neu gynrychiolwyr cyrff o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon yn ôl y gofyn, ac yn unol â'r safonau a'r gweithdrefnau gweithredol a bennir gan yr Ombwdsmon
- Diweddaru'r systemau rheoli achosion yn ôl y gofyn

# Cyfrifoldebau Parhad (3)

- Bod yn gyfarwydd â'r datblygiadau cyfredol ym maes y gyfraith ac arferion cyfredol sy'n briodol i Awdurdodaeth yr Ombwdsmon
- Cynorthwyo uwch gydweithwyr gydag unrhyw ddyletswyddau eraill, gan gynnwys cynrychioli'r Ombwdsmon mewn gwrandawiadau cyfreithiol neu mewn cyfarfodydd gyda chyrff allanol a allai gael eu dyrannu i chi o bryd i'w gilydd gan uwch gydweithiwr
- Dilyn holl bolisïau a gweithdrefnau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel y nodwyd hwy yn y dogfennau polisi, pecynnau cynefino, y fewnrwyd ac ati.
- Cyfrannu at ymrwymiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i arferion da o ran delio â gwybodaeth drwy gydymffurfio â chyfraith Diogelu Data a pholisïau a gweithdrefnau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn enwedig o ran unrhyw ddata personol neu ddeunydd cyfrinachol
- Cymryd gofal rhesymol o'ch llesiant a'ch iechyd a'ch diogelwch eich hun ac o lesiant ac iechyd a diogelwch pobl eraill y gallai'r camau hynny effeithio arnynt
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill, sy'n gymesur â'r sgiliau a'r profiad y disgwylir ar gyfer y swydd hon, y gall y rheolwr llinell perthnasol eu dyrannu o bryd i'w gilydd

# Cyfrifoldebau Parhad (4)

- Gweithredu ar draws holl awdurdodaeth bresennol yr Ombwdsmon neu ei awdurdodaeth yn y dyfodol ac ym mha bynnag dîm gweithredu sy’n briodol ym marn yr Ombwdsmon er mwyn cyflawni amcanion y gwasanaeth
- Gweithredu bob amser yn unol â Gwerthoedd yr Ombwdsmon:

| | |
|---|---|
| **Cyflawni** | Gwneud ein gorau glas |
| **Cydberthynas** | Parchu ein gilydd a gweithio ar y cyd er mwyn i’r sefydliad lwyddo |
| **Bod yn Gadarnhaol** | Dangos brwdfrydedd a balchder o ran pwy ydym ni a’r hyn rydym yn ei wneud |
| **Cefnogi** | Bod yn gefn i’n gilydd a gwerthfawrogi amrywiaeth |
| **Perchnogaeth** | Derbyn cyfrifoldeb am bopeth a wnawn |
| **Parodrwydd** | Agwedd gadarnhaol, hyblyg ac awyddus |

# Gofynion – Manyleb y Person

## Fel Hyfforddai Graddedig:

## Meini Prawf Hanfodol

- ❑ Gradd (neu'n aros am ganlyniadau) yn y Gyfraith, Gweinyddiaeth Gyhoeddus neu faes pwnc tebyg
- ❑ Rhugl yn y Gymraeg, gallu gwneud gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg (ar lafar ac ar bapur)
- ❑ Sgiliau cyfathrebu rhagorol

## Meini Prawf Dymunol

- ❑ Profiad perthnasol o leoliad gwaith (gwaith gwirfoddol neu waith am dâl)
- ❑ Dangos ymrwymiad i gyfiawnder, tegwch a gwasanaeth cyhoeddus

# Gofynion – Manyleb y Person

## Fel Swyddog Ymchwilio

## Meini Prawf Hanfodol

- Gallu asesu gwybodaeth gymhleth, gan gydnabod materion allweddol mewn achosion cymhleth ar unwaith, er mwyn gwneud penderfyniadau rhesymegol ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd
- Gallu cynllunio a blaenoriaethu gwaith yn unol â hynny er mwyn bodloni amserlenni a chynhyrchu llawer iawn o waith
- Gallu chwilio am ffeithiau, dadansoddi gwybodaeth, cymryd datganiadau gan dystion, dod i gasgliad a gwneud argymhellion rhesymol cadarn
- Gallu addasu i newid a dirnad gwybodaeth newydd a newidiadau deddfwriaethol yn gyflym
- Sgiliau gweinyddol rhagorol
- Sgiliau rhyngbersonol rhagorol ynghyd â ffordd gwrtais dros y ffôn
- Cyfathrebu'n rhagorol ar lafar ac ar bapur
- Aelod da o dîm ond â'r gallu i weithio ar eich liwt eich hun

# Gofynion – Manyleb y Person

## Fel Swyddog Ymchwilio (Parhad)

## Meini Prawf Hanfodol

- Disgresiwn llwyr a dealltwriaeth o’r angen am gyfrinachedd
- Cymhwysedd amlwg gyda chyfrifiaduron, gan gynnwys Microsoft Office

## Meini Prawf Dymunol

- Gwybodaeth a dealltwriaeth eang o awdurdodaeth yr Ombwdsmon, ac o weithredu deddfwriaeth briodol a gweithdrefnau cwynion (neu’r gallu i ddod i ddeall hyn)
- Trwydded yrru lawn (lân), yn barod i yrru i ymgymryd â’r gwaith/rôl

# Sut mae Gwneud Cais

# Gwneud cais am y rôl

I wneud cais, llenwch y Ffurflen Gais a'i dychwelyd atom. Gallwch wneud cais yn Gymraeg neu yn Saesneg. Ni fydd cais yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol. Yn y ffurflen gais, gofynnir i chi wneud y canlynol:

- ❑ Rhoi eich manylion personol. Llenwch yr adran hon yn gywir [gan fod y wybodaeth rydych chi'n ei roi yma yn ein helpu ni i gydymffurfio â Deddf Lloches a Mewnfudo 1996].
- ❑ Rhoi manylion eich hanes cyflogaeth os oes gennych rai. Wrth lenwi'r adran hon, gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys manylion eich swydd bresennol neu ddiweddaraf, hyd yn oed os ydych yn teimlo nad yw'r swydd yn berthnasol i'ch cais presennol.
- ❑ Nodi eich sgiliau, eich cyflawniadau addysgol ac unrhyw brofiad (gwirfoddol neu gyflogedig) a fydd, yn eich barn chi, yn eich helpu i gyfrannu yn y swydd hon at amcanion yr Ombwdsmon. Gwnewch yn siŵr nad ydych chi'n mynd dros y cyfrif geiriau penodol lle mae'n berthnasol, neu os yw'n berthnasol.
- ❑ Rhoi manylion y cymwysterau a enillwyd drwy addysg a hyfforddiant ochr yn ochr ag unrhyw aelodaeth broffesiynol sydd gennych (os yw'n berthnasol).
- ❑ Rhoi manylion dau berson y gellid gofyn iddynt fod yn ganolwyr proffesiynol/personol. Os oes gennych un, dewiswch ganolwr o'ch profiad gwaith/cwrs. Dim ond ar ôl gwneud cynnig y byddwn yn gwneud cais am eirdaon.
- ❑ Llenwi'r Ffurflen Monitro Cydraddoldeb. Bydd y ffurflen hon yn cael ei thrin ar wahân i'ch ffurflen gais, ac yn gyfrinachol, ac ni fydd yn cael ei defnyddio i asesu eich addasrwydd i gael eich cyflogi. Defnyddir y ffurflen hon at ddibenion monitro cydraddoldeb yn unig.

Ni allwn ystyried ceisiadau hwyr neu geisiadau anghyflawn. Sicrhewch eich bod yn darparu digon o enghreifftiau yn erbyn y meini prawf i ddangos eich cymhwysedd e.e. nid yw dweud bod gennych brofiad mewn maes yn ddigon, mae angen i chi gynnwys yr hyn yr ydych wedi'i wneud go iawn.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw 5 pm 26 Ebrill 2024.** Ni ellir ystyried ceisiadau sy'n dod i law ar ôl yr amser a'r dyddiad hwnnw, am ba reswm bynnag.

Rydym yn cadw'r hawl i gau'r cyfle hwn yn gynnar os daw digon o geisiadau i law, felly peidiwch ag oedi cyn cyflwyno eich cais.

# Canllawiau ar sut i wneud cais

Bydd y ffurflen gais y byddwch yn ei llenwi a'i chyflwyno yn rhan o'r broses ddethol. Felly, gwnewch yn siŵr eich bod yn cymryd eich amser ac yn cyflwyno eich dogfennau gan ddefnyddio print neu inc du.

- Darllenwch y Swydd-ddisgrifiad a'r Pecyn Recriwtio hwn yn ofalus cyn dechrau llenwi'r Ffurflen Gais.  Mae'r holl ddogfennau recriwtio, gan gynnwys y Ffurflen Gais, ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Rhaid i ffurflenni cais ein cyrraedd erbyn y dyddiad cau fel y nodir yn yr hysbyseb a'r Pecyn Recriwtio.
- Mae'r Ffurflen Gais ar gael fel dogfen Microsoft Word: fe'ch anogir i lenwi'r fersiwn Word a'i hanfon dros ebost gyda'r Ffurflen Monitro Cydraddoldeb i recruitment@ombudsman.wales
- Dylai ymgeiswyr sy'n anfon eu ceisiadau dros ebost nodi y bydd gweinydd yr Ombwdsmon yn diffinio amser derbyn eich cais.  Dylai ymgeiswyr y mae'n well ganddynt gyflwyno eu Ffurflen Gais a'u Ffurflen Monitro Cydraddoldeb drwy'r post eu hanfon i'r cyfeiriad post a nodir ar y dudalen nesaf.  Sylwch nad yw post dosbarth cyntaf yn gwarantu y bydd yn cyrraedd y diwrnod canlynol. Ni fyddwn yn derbyn unrhyw gais lle gofynnir i ni dalu am unrhyw ddiffyg o ran costau postio.
- Rhaid i chi lenwi bob adran o'r ffurflen. Gallai eich cais gael ei wrthod os na fyddwch wedi llenwi pob rhan ohono.
- Llenwch y Ffurflen Monitro Cydraddoldeb. Ni fydd y manylion y byddwch yn eu rhoi ar y ffurflen hon yn rhan o'r broses ddethol.
- Rydym yn argymell eich bod yn gwneud copi o'ch ffurflen wedi'i llenwi a'ch swydd-ddisgrifiad ac yn eu cadw ar gyfer eich cofnodion.

# Cyflwyno eich cais

Rydym yn ffafrio derbyn dogfennau cais yn electronig erbyn y dyddiad cau at y cyfeiriad canlynol:
recruitment@ombudsman.wales

Fel arall, gallwch argraffu eich Ffurflen Gais a'i hanfon at:

Recriwtio
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi atodi:

- Ffurflen Gais wedi'i Llenwi
- Ffurflen Monitro Cydraddoldeb

Os oes gennych chi gwestiynau nad ydynt yn cael eu hateb yn y pecyn hwn, cysylltwch â Recriwtio ar 01656 644214 neu anfonwch ebost i recruitment@ombudsman.wales

# Y Broses Recriwtio a Dethol

# Y Broses Recriwtio a Dethol

Bydd y panel dethol yn ystyried pob cais cyflawn. Bydd y panel yn ystyried yr wybodaeth, y sgiliau ac unrhyw brofiad perthnasol a nodir yn eich cais.  Felly, mae'r wybodaeth rydych yn ei darparu yn hanfodol wrth benderfynu a fyddwch yn cael eich rhoi ar y rhestr fer i'ch hystyried ymhellach.  Gwnewch yn siŵr eich bod yn darparu enghreifftiau, gan na fydd dweud "Mae gen i brofiad o..." a pheidio â rhoi enghraifft o'r hyn rydych chi wedi'i wneud yn ddigon o dystiolaeth i ni allu eich sgorio ar yr elfen benodol honno.

**Gofynion arbennig**

Fel cyflogwr sydd wedi ymrwymo i'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd, bydd yr holl ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol ac sy'n anabl yn cael eu rhoi ar y rhestr fer. Os oes gennych chi unrhyw ofynion arbennig oherwydd anabledd er enghraifft, cysylltwch â'r adran Recriwtio ar **01656 644214** neu recruitment@ombudsman.wales a fydd yn falch o'ch helpu.

**Ieithoedd i'w defnyddio wrth asesu a chyfweld**

Mae'r swydd hon yn gofyn am siaradwr Cymraeg rhugl.  Mae hyn yn golygu bod profion a chyfweliadau yn debygol o gael eu cynnal yn Gymraeg ar gyfer y swydd hon.

**Penodi**

Cyn penodi:

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus brofi ei fod yn gymwys i weithio yn y DU; llenwi Holiadur Iechyd; a darparu gwybodaeth am unrhyw euogfarnau troseddol sydd heb ddod i ben.

Bydd angen i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd dderbyn geirdaon addas ar gyfer eich penodi i'r swydd. Dim ond ar ôl i gynnig cyflogaeth gael ei wneud a'i dderbyn y gwneir cais am eirdaon.

## Dyddiad cau: 5 pm, 26 Ebrill 2024

**Cofiwch fod gennym yr hawl i gau'r cyfle hwn yn gynnar os daw digon o geisiadau i law.**

# Diogelu Data

# Hysbysiad Preifatrwydd

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd yn esbonio sut y bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymdrin â'ch gwybodaeth bersonol (neu wybodaeth bersonol unigolyn yr ydych chi'n gweithredu ar ei ran). Mae'r hysbysiad preifatrwydd yn ystyried gofynion Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018.

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales